# YSGOL GYMRAEG CASTELL-NEDD

**Pennaeth:** Mr D. T. Jones B.Add.
Heol Woodland, Castell-nedd. SA11 3AL.
**Ffôn:** 01639 637701 **Ffacs:** 01639 639772
**e-bost:** castellnedd.gyn@npt.gov.uk
pennaeth.castellnedd.gyn@npt.gov.uk

## Polisi Hurio Adeiladau Ysgol
## (Y tu allan i Oriau'r Ysgol)

1. Gall unrhyw geisiadau posib gael eu gwirio gydag Adran Ystadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, i sicrhau nad ydynt yn niweidiol i brydles yr ysgol â'r Ystâd Denant.

2. Rhaid i bob huriwr gwblhau ffurflen gais Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a derbyn yr amodau hurio a nodir ar y ffurflen.

3. Rhaid i'r huriwr roi copi o fanylion ei bolisi yswiriant i'r ysgol.

4. Cost hurio pob uned yw £12 yr awr. Adolygir y gost hon yn flynyddol. Bydd gan yr huriwr ddefnydd llawn o'r holl gyfleusterau yn yr ardal, cytunwyd ymlaen llaw.

5. Bydd pob cais yn cael cyfnod prawf 3 mis. Os bydd yn llwyddiannus, caiff ei adnewyddu'n flynyddol.

6. Bydd y cyfnod rhybudd i derfynu'n cael ei roi 1 mis ymlaen llaw. Fodd bynnag, bydd y drwydded i ddefnyddio'r cyfleusterau'n cael ei thynnu'n ôl ar unwaith os esgeulusir amodau hurio'r ffurflen gais.

7. Bydd y ffioedd yn daladwy ar sail hanner tymor. Codir y taliadau gan yr ysgol, Ysgol Gymraeg Castell-nedd.

8. Dylai pob siec fod yn daladwy i Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, i'w dalu i gyllideb yr ysgol.

9. Bydd y gwiriadau diogelwch perthnasol

**Pennaeth:** Mr D. T. Jones B.Add.
Heol Woodland, Castell-nedd. SA11 3AL.
**Ffôn:** 01639 637701 **Ffacs:** 01639 639772
**e-bost:** castellnedd.gyn@npt.gov.uk
pennaeth.castellnedd.gyn@npt.gov.uk


wedi'u cynnal ar yr holl gyfarpar ym mhob uned. Cyfrifoldeb yr ysgol fydd cynnal a chadw'r cyfarpar a'r adeiladau, oni bai mai'r huriwr sydd wedi achosi'r difrod. Yna byddant yn gyfrifol am y gwaith adfer.

10. Ni fydd yr huriwr yn cael dod â chyfarpar ychwanegol i'r uned, oni chytunir ar hynny ymlaen llaw.

11. Bydd yr huriwr yn derbyn cyflwyniad iechyd a diogelwch ar gyfer yr uned, a gweld sut i weithio'r cyfarpar mae ei angen arnynt.

* Bydd yr huriwr yn derbyn rhifau cyswllt.